

CYPE(6)-06-21 - Papur i'w nodi 4

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc  
ac Addysg**

**Children, Young People  
and Education Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Senedd Cymru**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Copi at: Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal

Cymdeithasol

Dyddiad: 9 Tachwedd 2021

Pwnc: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

Annwyl Eluned,

Hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Fel y gwyddoch, mae fy Nghlerc wedi trefnu gyda'ch swyddogion i chi a'ch Dirprwy Weinidogion fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ar 13 Ionawr 2022 i roi tystiolaeth lafar ynghylch y Gyllideb Ddrafft. Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 20 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 20 Rhagfyr. Cysylltwch â'm Clerc os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y diddordeb cyffredin ar draws y pwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rwyf wedi anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad: Cais i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft

Nod ein gwaith craffu ariannol yw sicrhau atebolrwydd, hyrwyddo gwell penderfyniadau a gwella gwerth am arian. Bydd yn dilyn pedair egwyddor allweddol, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid:

- Fforddiadwyedd: edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt.
- Blaenoriaethu: a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng gwahanol sectorau/rhaglenni mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau.
- Gwerth am arian: yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – (h.y.) canlyniadau o ran economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Prosesau'r gyllideb: a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

## Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Drwy gydol y Senedd flaenorol, pwysleisiodd ein Pwyllgor blaenorol bwysigrwydd cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft yn dryloyw er mwyn galluogi gwaith craffu llawn a thrylwyr. Er mwyn parhau â'r dull hwn, gofynnwn am esboniad naratif tryloyw (a darlunio rhifol) ynghylch y canlynol mewn perthynas â'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- gostyngiadau/dileu neu gynyddu/ychwanegu o ran meysydd penodol o'r gyllideb ddrafft o'i gymharu â'r blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. lleihau grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu);
- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli;
- lle'n union mae'r newid hwn yn cael ei wneud yn y Gyllideb Ddrafft, a ph'un a fydd arian yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill; a
- gwybodaeth am yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar ddyraniadau.



## Dyrannu'r 'uchafswm adnoddau sydd ar gael' i blant a phobl ifanc

Yn unol ag asesu a roddwyd 'sylw dyledus' i erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), mae'r Pwyllgor yn gofyn am:

- copi o'r Asesiad cyffredinol o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio'r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2022-23 **ar draws pob portffolio**,
- Os na chynhaliwyd Asesiad o'r fath penodol, y rhesymau dros hyn a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig arall.
- manylion am ba drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Gweinidogion perthnasol eraill mewn perthynas â dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran tlodi plant.

Mewn perthynas â'r **Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**, mae'r Pwyllgor yn gofyn am:

- Gopi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a wnaed gan Lywodraeth Cymru i lywio'r dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23.
- Gwybodaeth am sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau'r gyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant.
- Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Esboniad ar ddyraniadau Cam Gweithredu a'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022-23 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, yn ôl Ardal Rhaglen Wariant (Ile bo hynny'n berthnasol), Cam Gweithredu a'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb i gynnwys:
- Esboniad ar bob un o'r camau gweithredu a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau rhwng Gyllideb Ddrafft 2022-23 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2021.



- Dyraniadau dangosol y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

## Dyraniadau polisi a deddfwriaeth Cyllideb Ddrafft 2022-23

Diweddariad ar ddyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y meysydd canlynol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, gan gynnwys:

- Dyraniadau i gyflawni holl ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a phortffolio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
- Manylion yr asesiad a wnaed o'r gwerth am arian a fforddiadwyedd ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion hyn, a sut y bydd eu heffeithiolrwydd o ran cost yn cael ei fonitro.
- Costau deddfwriaeth: Gweithredu'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn y cyfnod cyn mis Mawrth 2022 ac yn ei flwyddyn gyntaf mewn grym.

Dyraniadau ar draws y **Portffolio Gweinidogol** fel y rhestrir isod ac fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a phortffolio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

### Iechyd Plant

---

- Darpariaeth a pherfformiad y GIG fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc
- Ymchwil a datblygiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc
- Iechyd y cyhoedd: Ymateb i COVID-19, sgrinio a brechu
- Iechyd y Cyhoedd: Gwasanaethau gwella iechyd a llesiant
- Gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys iechyd meddwl amenedigol
- Atal hunanladdiad
- Awtistiaeth
- Camddefnyddio sylweddau fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc
- Gordewdra ymhlith plant

### Gofal Cymdeithasol Plant

---

- Diogelu

- Gwasanaethau mabwysiadu a maethu
- Eiriolaeth plant a phobl ifanc
- Cafcass Cymru
- Polisi a goruchwyllo'r ddarpariaeth o ran holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru.
- Hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y cynnig Gofal Plant a'r gweithlu
- Addysg a Gofal Plentynod Cynnar
- Dechrau'n Deg ar gyfer plant 0-3 oed
- Teuluoedd yn Gyntaf a pholisiau chwarae

## **Effaith Pandemig COVID-19 ar ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2022-23**

- Gwybodaeth am effaith y pandemig ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2021-22 a 2022-23 fel ei gilydd, gan gynnwys symudiadau i mewn ac allan o linellau cyllideb, y cyfraniad gros tuag at ymateb cyllidebol COVID-19 Llywodraeth Cymru - a derbyn ohono - yn ogystal ag effaith net hyn.
- Gwybodaeth am argaeledd a defnydd y Gronfa Galedi Llywodraeth Leol COVID-19 o ran plant a phobl ifanc.